Y TORWYR CÔD: HERIO HILIAETH YN Y BYD RYGBI



GEORGE BENNETT: Y FREUDDWYD NA CHANIATEIR

Roedd George Bennett wrth ei fodd gyda rygbi. Ganwyd mewn pentref bach yng Nghymru ym 1913, ac roedd yn breuddwydio am wisgo'r siwmper goch a chwarae i Gymru yn rygbi'r undeb. Ond roedd problem – roedd George yn Ddu, a bryd hynny, roedd hiliaeth yn gyffredin iawn yn undeb rygbi Cymru. Dim ots pa mor dalentog oedd o, ni chafodd fachu ar y cyfle.

Pan roedd ond yn 17, fe wnaeth George ddewis dewr. Fe adawodd rygbi'r undeb ac ymunodd gyda Wigan i chwarae rygbi'r gynghrair, lle cafodd ei dderbyn am bwy oedd o. Daeth yn chwaraewr o fri, gan chwarae **383 gêm** a sgorio sawl cais. Ym 1935, llwyddodd i ddod **y chwaraewr Du cyntaf i gynrychioli Cymru yn rygbi'r gynghrair** a'r chwaraewr Du cyntaf i chwarae i unrhyw dîm rygbi'r gynghrair ryngwladol ym Mhrydain.

Ond hyd yn oed bryd hynny, roedd yn dal i wynebu hiliaeth. Ym 1936 cafodd George ei hepgor o dîm Prydain Fawr a oedd yn teithio o amgylch Awstralia. Y rheswm dros hyn? Dywedodd y Swyddogion eu bod nhw am "osgoi beirniadaeth" oherwydd roedd gan Awstralia waharddiad lliw llym. Nid oedd talent George o bwys – ond roedd lliw ei groen.

Mae stori George Bennett yn un llawn dewrder a gwytnwch. Ni wnaeth adael i hiliaeth ei atal rhag chwarae ei hoff chwaraeon, ond fe wnaeth ei atal rhag gwireddu ei freuddwyd mwyaf: chwarae rygbi'r undeb i Gymru.

Y TORWYR CÔD: HERIO HILIAETH YN Y BYD RYGBI

ROY FRANCIS: YMHELL CYN EI OES

Ganwyd Roy Francis ym 1919 ym Mrynmawr, Cymru. Yn debyg i George, fe wynebodd hiliaeth yn rygbi'r undeb, felly fe aeth i chwarae rygbi'r gynghrair yn lle hynny.

Pan roedd yn 17, fe ymunodd gyda Wigan ac yn ddiweddarach Barrow, gan ddod yn un o chwaraewyr gorau ei gyfnod. Ym 1947, fe wnaeth Roy hanes fel **y dyn Du cyntaf i chwarae i Brydain Fawr**, gan sgorio dau gais yn erbyn Seland Newydd. Roedd gyrfa chwarae Roy yn anhygoel – **229 cais mewn 356 gêm** – ond roedd ei yrfa yn hyfforddi yn hyd yn oed yn fwy anhygoel.

Daeth **yn brif hyfforddwr Du cyntaf ar ran tîm haen uchaf Prydain**, gan arwain Hull a Leeds i ennill tlysau sylweddol. Roedd Roy yn arloeswr: bu'n ffilmio gemau i helpu chwaraewyr i wella, bu'n creu dietau arbennig, a hyd yn oed yn gwahodd chwaraewyr i'w gartref i sicrhau ei bod nhw'n bwyta'n iawn. Roedd y syniadau hyn ddegawdau cyn eu hoes!

Er gwaethaf ei lwyddiant, roedd Roy yn wynebu hiliaeth ac roedd yn aml yn cael ei anwybyddu. Heddiw, mae henebion a gwobrau o'r diwedd yn ei anrhydeddu, ond am flynyddoedd fe anghofiwyd am ei gyflawniadau. Profodd Roy y gall talent ac arloesedd oresgyn rhwystrau – hyd yn oed pan fo'r gymdeithas yn ceisio eich rhwystro.

Y TORWYR CÔD: HERIO HILIAETH YN Y BYD RYGBI

BILLY BOSTON: Y SEREN NA CHWARAEODD I GYMRU ERIOED

Ganwyd Billy Boston yng Nghaerdydd ym 1934 ac fe dyfodd i fyny wrth ei fodd gyda rygbi. Roedd yn gyflym, yn gryf, ac yn dalentog dros ben – roedd pawb yn gallu gweld ei fod am ragori.

Ond roedd Billy yn wynebu rhwystr enfawr: hiliaeth yn undeb rygbi Cymru. Er gwaethaf ei sgiliau, ni chafodd ei ddewis i chwarae dros Gymru yn rygbi'r undeb. Pam? Oherwydd ei fod yn Ddu. Ni wnaeth Billy roi'r gorau iddi.

Fe newidiodd i chwarae rygbi'r gynghrair ac ymunodd gyda Wigan ym 1953. O'r adeg honno, daeth yn arwr. Sgoriodd Billy **571 cais mewn 563 gêm**, record sy'n dal yn synnu pobl hyd heddiw. Fe enillodd dlysau, chwaraeodd i Brydain Fawr, a daeth yn un o'r chwaraewyr rygbi'r gynghrair gorau erioed. Roedd cefnogwyr wrth eu bodd gydag o, ond ni wnaeth Billy erioed anghofio'r boen o gael ei wrthod i chwarae dros Gymru yn rygbi'r undeb.

Dywedodd unwaith, "Roeddwn i eisiau chwarae rygbi i Gymru o waelod fy nghalon." Ni wireddwyd ei freuddwyd oherwydd hiliaeth.

Heddiw, fe gaiff Billy Boston ei glodfori gyda cherflun yng Nghaerdydd ochr yn ochr â mawrion eraill. Mae ei stori yn ein hatgoffa na ddylid beirniadu talent ar sail lliw croen – a bod hiliaeth wedi atal Cymru rhag manteisio ar un o'i chwaraewyr gorau

Y TORWYR CÔD: HERIO HILIAETH YN Y BYD RYGBI

CLIVE SULLIVAN: GORESGYN RHWYSTRAU AC ARWAIN CENEDL

Ganwyd Clive Sullivan yng Nghaerdydd ym 1943. Pan roedd yn blentyn, roedd wrth ei fodd gyda rygbi, ond bu ei gyfnod yn y chwaraeon yn drafferthus yn sgil anafiadau a hiliaeth. Er gwaethaf hyn, bu i Clive frwydro i oresgyn pob her.

Daeth yn seren yn rygbi'r gynghrair, gan chwarae i Hull a Hill Kingston Rovers, a sgorio **250 cais mewn 352 gêm**.

Ym 1972, fe greodd Clive hanes. Daeth y dyn **Du cyntaf i fod yn gapten ar dîm cenedlaethol Prydain** – mewn unrhyw chwaraeon! O dan ei arweinyddiaeth o, fe enillodd Prydain Gwpan y Byd Rygbi'r Gynghrair. Sgoriodd Clive gais yn y rownd derfynol hyd yn oed, gan helpu ei dîm i godi'r gwpan.

Ar adeg pan roedd hiliaeth yn gyffredin, roedd llwyddiant Clive yn wirioneddol anhygoel. Fe ddangosodd nad oedd lliw croen yn berthnasol i arweinyddiaeth a thalent. Yn anffodus bu farw Clive yn ifanc ym 1985, ond mae ei waddol yn bodoli hyd heddiw. Yn Hull, mae prif ffordd wedi'i henwi'n **Clive Sullivan Way**, fel bod pawb yn cofio'r dyn wnaeth oresgyn rhwystrau ac ysbrydoli cenedlaethau.